

# Senedd Myfyrwyr

Hysbysir aelodau Senedd y Myfyrwyr y cynhelir y cyfarfod nesaf fel y dangosir isod:

**Student Senate**  
**Senedd y Myfyrwyr**



**Dydd Mawrth 29<sup>eg</sup> Rhagfyr 2018**

**Ystafell 4J, 4ydd Llawr Undeb y Myfyrwyr 6yh**

---

## Agenda

Cysylltwch â Thîm Llais Myfyrwyr ar 02920 781435 neu e-bostiwch [democracy@caerdydd.ac.uk](mailto:democracy@caerdydd.ac.uk) i drafod unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau sydd gennych neu i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau isod ar yr agenda.

### **I Eitemau Sylfaenol:**

- A. Ymddiheuriadau
- B. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### **II Eitemau Undeb y Myfyrwyr:**

- A. Ymddiswyddiad Swyddog LHDT+ Agored

### **III. Eitemau a Gyflwynwyd:**

- A. Prifysgol Caerdydd a UMPC i fabwysiadu diffiniad llawn o Islamoffobia
- B. Brwydro dros gyllid: Mandad y CCB ar gyfer Cynhadledd NUS UK
- C. Newid Cyfyngiadau Cardiau Rheilffyrdd sy'n effeithio myfyrwyr

### **IV. Unrhyw Fusnes Arall:**

- 1. Cynigion sy'n Darfod

I Eitemau Sylfaenol:

## Senedd Myfyrwyr

Dydd Mawrth 11<sup>eg</sup> Rhagfyr 2018

Ystafell 4J, Undeb y Myfyrwyr, 6yh

### Seneddwyr Myfyrwyr yn Bresennol:

Aayat Almezal	Alex Keyter	Benjamin Leonard	Caitlin Parr
Daniel Mapatac	Elly Owen	Hannah McCarthy	Zachary Edge
Jacob Lloyd	Janet Williams	Jeevan Kaur	Josh Eynon
Joshua Prior	Kathryn Cribbin	Oliver Copleston	Rosalind Crocker
Shekina Ortom	Takura Nyamowa	Tom Kelross	Tomos Evans
Zhihan Li	Zsofia Zab	Nick Fox- <i>Cadeirydd</i>	

### Swyddogion Ymgyrch yn Bresennol:

Erin Joseph	Joshua Lewis	Julia Rooke
Martha Hughes	Nia Jones	

### Cynrychiolwyr Academaidd yn Bresennol:

Chloe Ryce  
Carys Leaves  
Ching Ho Cheung

### Staff Undeb y Myfyrwyr yn bresennol:

Jake Smith - Is-Iywydd Ôl-raddedig  
Georgie Haynes - Is-Iywydd Chwaraeon

Steve Ralph - Pennaeth Llais Myfyrwyr  
Holly Thomas - Cydlynnydd Llais Myfyrwyr  
Vicki Groves - Cynorthwydd Llais Myfyrwyr - *Cofnodion*

Pwynt Gweithredu	Gan bwy	Tudalen	Cwblhawyd
I ddarparu rhestr o bolisiau sy'n darfod ar gyfer y flwyddyn 18/19 gyfan.	Llais Myfyrwyr	3	Cwblhawyd

I.	<b>Eitemau Sylfaenol</b>
A.	<p><b>Ymddiheuriadau</b></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jonathan Melbourne, Hannah Ryan, Omar Mohammed, Rosemary Howl, Orla Tarn, Katya Minster a Heather Wright.</p>
B.	<p><b>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</b></p> <p>Dim gwelliannau i'r cofnodion blaenorol.</p> <p><i>Cofnodion yn pasio</i></p>
II.	<b>Eitemau Undeb y Myfyrwyr</b>
A.	<p><b>Diweddariad gan y Bwrdd</b></p> <p>Rhoddodd GH ddiweddariad gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddog Y Gymraeg llawn amser o 2020 ymlaen, bod adolygiad annibynnol ar waith ar hyn o bryd a bydd penderfyniad yn cael ei wneud erbyn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.</li> <li>• Mae NUS yn diffyg tua £3 miliwn, mae'r Llywydd a'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cyfrannu tuag at syniadau ar sut i fod yn fwy cynaliadwy.</li> <li>• Mae'r Brifysgol yn diffyg tua £21 miliwn, mae'r prosiect Trawsnewid Caerdydd yn anelu i leihau costau. Yr Undeb wedi gofyn am well cyfathrebu ac yn ystyried trefnu ymgyrch.</li> </ul> <p>Gofynnodd EO ynglŷn â'r ymgyrch</p>

	<p>Esboniodd GH ei fod yn ddyddiau cynnar, ond bydd yn bennaf o amgylch codi ymwybyddiaeth ac annog y Brifysgol i gyfathrebu gyda mwy o fyfyrwyr.</p> <p>Croesawodd JS unrhyw awgrymiadau.</p>
B.	<p><b>Diweddariad gan y Pwyllgor Craffu</b></p> <p>Cadarnhaodd NF fod swyddog wedi cael eu harchwilio.</p>
III.	<p><b>Eitemau a Gyflwynwyd</b></p>
A.	<p><b>Ein Dyfodol. Ein Dewis.</b></p> <p>Cyflwynwyd gan Julia Rooke.</p> <p>Siaradodd JR dros y cynnig ac esboniodd y dylai'r Undeb gefnogi Pleidlais y Bobl, i roi cyfle i bobl Prydain gael rhoi eu barn ar y cytundeb Brexit terfynol. Mae wedi ei gefnogi ar draws y pleidiau, gan yr NUS a gan Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd. Mae yna ansicrwydd yn amgylchynu Brexit, yn effeithio'r Brifysgol a myfyrwyr, yn enwedig y rheiny sy'n astudio ar y cynllun Erasmus Plus. Efallai nad oedd mwyafrif o fyfyrwyr israddedig wedi pleidleisio yn wreiddiol gan nad oeddent yn ddigon hen, felly mae angen sicrhau fod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed.</p> <p>Dim siaradwr yn erbyn.</p> <p>Gofynnodd EO os mai'r bwriad oedd alinio gydag ymgyrch 'Our People, Our Vote'. Atebodd JR mae ymgyrch 'People's Vote' ydyw.</p> <p>Gofynnodd GH beth yw JR yn gweld yr Undeb yn ei wneud. Atebodd JR y dylent gyhoeddi</p>

cefnogaeth yn gyhoeddus a'i roi ar y wefan. Roedd gan Undeb Caerfaddon stondinau er mwyn i fyfyrwyr i ysgrifennu at Aelodau Seneddol lleol.

Gofynnodd ZZ os dylai'r Undeb fod yn niwtral ar gyfer barn yr holl fyfyrwyr. Esboniodd JR fod y cynnig hwn o ongl ymgysylltu â myfyrwyr ac yn ceisio cael myfyrwyr i feddwl am faterion.

Awgrymodd JW fod angen i'r Brifysgol wneud datganiad mwy pellgyrhaeddol gyda myfyrwyr Erasmus.

Cytunodd JR.

Gofynnodd JP pa effaith y mae JR yn meddwl y gall yr Undeb ei gael. Atebodd JR y byddai'n arddangos i'r Llywodraeth fod y mater hwn yn bwysig i fyfyrwyr a'u bod yn gysylltiedig â'r mater.

Gofynnodd BL sut mae hyn yn cynrychioli myfyrwyr sydd ddim eisiau pleidlais y bobl. Atebodd JR fod Senedd y Myfyrwyr i fod i gynrychioli ystod eang o ddaliadau ac mae'n adlewyrchu poblogaeth y myfyrwyr os yw'n pasio neu'n methu. Bydd myfyrwyr yn rhydd i fynegi eu barn yn eu ffordd eu hunain.

Gofynnodd AK sut i ymgysylltu gyda myfyrwyr nad oedd yn medru pleidleisio y tro cyntaf.

Atebodd JR gan roi pwyslais ar fyfyrwyr blwyddyn gyntaf.

Gofynnodd KK os ddylai'r datganiad ddweud na ddylem gymryd safiad i gynrychioli pawb.

	<p>Cytunodd JR ac esboniodd ei fod yn ymwneud mwy ag ymgysylltiad.</p> <p>Darllenodd TMK ddatganiad yn cefnogi Pleidlais y Bobl ar ran yr AS Jo Stevens.</p> <p>Cyfrifodd JR y cynnig.</p> <p><i>Cynnig yn pasio.</i></p>
IV.	<b>Unrhyw Fater Arall</b>
A.	<b>Cynigion sy'n darfod</b>  Esboniodd NF fod polisiau sy'n darfod yn gallu cael eu hailgyflwyno gan Seneddwyr.  <b>Pwynt Gweithredu</b> - Llais Myfyrwyr i ddarparu rhestr o bolisiau sy'n darfod ar gyfer y flwyddyn 18/19 gyfan.

## II Eitemau Undeb y Myfyrwyr:

### A. Ymddiswyddiad Swyddog LHDT+ Agored

## III. Eitemau a Gyflwynwyd:

### A. Prifysgol Caerdydd a UMPC i fabwysiadu diffiniad llawn o Islamoffobia

Syniad: Prifysgol Caerdydd a UMPC i fabwysiadu diffiniad llawn o Islamoffobia		
Beth yw'r broblem?		
<p>Mae Mwslimiaid ar draws y campws ac ar draws y wlad wedi teimlo'n anniogel ac yn anghyfforddus gyda'u hunaniaeth eu hunain. Dangosodd ystadegau swyddogol y llywodraeth adroddiadau o droseddau casineb hiliol a chrefyddol yng Nghymru a Lloegr wedi codi am y pumed flwyddyn yn olynol. Mae troseddau casineb gwrth-Fwslimaidd ymysg rhain. Roedd hyd yn oed digwyddiad yng Nghaerdydd lle taflwyd tân gwyllt i mewn i dŷ dynes drwy'r blwch postio.</p>		
Beth yw eich syniad:		
<p>Bydd mabwysiadu diffiniad o Islamoffobia yn arddangos i fyfyrwyr Mwslimaidd y byddwn yn cymryd yn camau i ddiffinio cadwraeth iach o fynegiant Mwslimaidd. Wrth i ddiffiniad Islamoffobia gael ei drafod yn y senedd, rydw i yn annog y senedd i fabwysiadu y diffiniad llawn o Islamoffobia a welir yma <a href="https://t.co/o2GVDRiFPI">https://t.co/o2GVDRiFPI</a></p> <p>Fe fyddwn yn mandadu'r swyddogion i lobio Prifysgol Caerdydd i fabwysiadu'r diffiniad hwn a chymeradwyo polisi dim goddefgarwch i Islamoffobia ym mhob ffurf.</p>		
Nifer y pleidleiswyr: 78	Nifer o bleidleisiau o blaid: 70	Nifer o bleidleisiau yn erbyn: 8

### B. Brwydro dros gyllid: Mandad y CCB ar gyfer Cynhadledd NUS UK

“Rydym yn rhoi mandad i'r tîm swyddogion etholedig 2018/2019 i wneud cynnig i'r Senedd Myfyrwyr ac yna cynhadledd genedlaethol NUS neu NUS NEC. Bydd y cynnig yn anelu at gyflwyno templed a'r fynd i'r afael ac ymosodiadau rhywiol i'n Prifysgolion a bydd gofyn i NUS i fabwysiadu'r templed hwn. Bydd hefyd yn gweithredu fel llestr i gael cyllid pellach a buddsoddiad yn yr adran hon.”

*No further translation available due to late motion submission.*



## C. Newid Cyfyngiadau Cardiau Rheilffyrdd sy'n effeithio myfyrwyr

Mae'r gynhadledd yn credu:

1. O Ddydd Llun i Ddydd Gwener nid oes gostyngiadau teithio rheilffyrdd ar docynnau rhatach na £12 cyn 10yb i ddalwyr cardiau myfyrwyr 16-25<sup>1</sup> na dalwyr cardiau 26-30.<sup>2</sup>
2. Mae myfyrwyr rhan amser, myfyrwyr sy'n byw gartref, myfyrwyr hŷn, ôl-raddedigion, myfyrwyr gyda theuluoedd a myfyrwyr sy'n ofalwyr yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan y broblem hon.
3. Cododd prisiau rheilffyrdd 3.6% yn 2017 a chodi 3.1% eto yn 2018.<sup>3</sup>

Cred y Gynhadledd Ymhellach

1. Mae angen i'r mwyafrif o fyfyrwyr sy'n defnyddio trafndiaeth rheilffordd er mwyn cyrraedd eu sefydliad, wneud hynny cyn 10yb.
2. Mae trafndiaeth rheilffordd yn fwy cyflym na bysiau yn enwedig yn ystod amseroedd brig.
3. Mae myfyrwyr sydd â chyfrifoldeb dros eraill yn cael budd o drafnidiaeth ratach ac amser ychwanegol.
4. Mae prisiau uchel yn rhwystr enfawr i lawer o fyfyrwyr sy'n ceisio cael mynediad at eu haddysg
5. Mae gwella mynediad i deithio rheilffordd yn dda i addysg myfyrwyr ac i'r amgylchedd
6. Mae gan ddalwyr cardiau henoed a dalwyr cardiau anabledd llai o gyfyngiadau neu heb gyfyngiadau o gwbl ar ostyngiadau teithio cyn 10yb Dydd Llun i Ddydd Gwener.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. NUS i ymgyrchu i'r Adran Drafnidiaeth, ATOC a Transport Focus ar gyfer prisiau is i fyfyrwyr ac i ddi-ddymu cyfyngiadau amseroedd brig wrth ddefnyddio cardiau rheilffordd 16-25 a chardiau rheilffordd 26-30.
2. NUS i ymgyrchu i fasnachfreintiau rheilffyrdd newydd i gynnwys gostyngiadau myfyrwyr.
3. NUS i ymgyrchu i gyflwyno'r un rheolau ar gyfer teithio cyn 10yb a Chardiau Rheilffyrdd Henoed<sup>4</sup>, Cardiau Rheilffyrdd Anabledd.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> <https://www.16-25railcard.co.uk/using-your-railcard/travel-times-tickets/>

<sup>2</sup> <https://www.26-30railcard.co.uk/using-your-railcard/travel-times>

<sup>3</sup> <https://www.theguardian.com/money/2018/nov/30/uk-rail-fares-to-rise-31-in-new-year>

<sup>4</sup> <https://www.senior-railcard.co.uk/>

<sup>5</sup> <https://www.disabledpersons-railcard.co.uk/>

#### IV. Unrhyw Fusnes Arall:

##### 1. Cynigion sy'n Darfod

<https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/>

*Tryloywder o amgylch buddsoddiadau'r Brifysgol a lle maen nhw'n cael eu gwario o amgylch y campws gyda mwy o gyfleoedd ar gyfer mewnbwn myfyrwyr.*

*Yn erbyn newidiadau i gyllid addysg nyrsio a bydwreigiaeth*

*Iechyd Meddwl Gorfodol*

***Yn darfod o 02.02.02.19 ymlaen***

*Rydym yn galw ar UCM Cymru i wahodd y Blaid Werdd a UKIP i gymryd rhan yn Nadl Cynhadledd UCM Cymru*